

Etholiadau lleol yng Nghymru a Lloegr

Canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid

Rhan 6 o 6 – Ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau

Tachwedd 2018

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i etholiadau dosbarth, bwrdeistref, sir, bwrdeistref sirol, ac awdurdodau unedol. Nid yw'n berthnasol i etholiadau cynghorau plwyf a chymuned, etholiadau meiri nac etholiadau i Awdurdod Llundain Fawr. Gellir cael mynediad at ein canllawiau ac adnoddau ar gyfer bob etholiad lleol ar yng Nghymru a Lloegr o'n gwefan ar:

www.electoralcommission.org.uk/cymru/guidance/resources-for-those-we-regulate/candidates-and-agents.

Cynnwys

Gwybodaeth hanfodol	2
Datganiad derbyn swydd	3
Dyrannu seddi os yw'r etholiadau a amserlennwyd wedi'u cyfuno ag isetholiad lleol	3
Deisebau etholiadol	4
Beth sy'n digwydd i waith papur etholiad ar ôl cyhoeddi'r canlyniad?	4
Cyflwyno eich ffurflenni gwariant etholiad	4
Gwybodaeth ategol	5
Cyflwyno deiseb etholiadol	5
Archwilio a chyflenwi dogfennau cysylltiedig ag etholiad.....	6
Archwilio a chyflenwi cofrestrï wedi'u marcio a rhestrau pleidleiswyr absennol.....	6
Archwilio dogfennau etholiad eraill	8
Archwilio cofnodion gwariant etholiad	8
Beth sy'n digwydd os na chaiff cofnod gwariant ei gyflwyno?	8

Gwybodaeth hanfodol

Mae'r rhan hon o'r ddogfen yn cynnwys ein canllawiau ar yr hyn sy'n digwydd ar ôl i'r canlyniadau mewn etholiad dosbarth, bwrdeistref, sir, bwrdeistref sirol, neu awdurdodau unedol yng Nghymru a Lloegr gael eu cyhoeddi.

Ceir gwybodaeth ategol, sydd o bosib ond yn berthnasol i rai ymgeiswyr, ar ddiwedd y ddogfen hon. Gellwch weld y canllawiau ategol trwy glicio ar y linciau yn y ddogfen hon neu drwy glicio ar bennawd y bennod ar y dudalen gynnwys.

Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â'ch tîm Comisiwn lleol os gwelwch yn dda os oes gennych unrhyw gwestiynau. Gweler ein [Dogfen trosolwg](#) am fanylion cyswllt.

Daeth deddfwriaeth diogelu data newydd i rym o 25 Mai 2018, a bydd yn berthnasol i brosesu holl ddata personol.

Cysylltwch â [Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth](#) am fwy o wybodaeth ynghylch sut mae'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol yn effeithio arnoch chi.

Yn y ddogfen hon, byddwn yn defnyddio 'chi' i gyfeirio at yr ymgeisydd. Byddwn yn defnyddio 'rhaid' i gyfeirio at ofyniad penodol. Rydym yn defnyddio 'dylai' ar gyfer eitemau yr ystyriwn i fod yn arfer da, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol na rheoleiddiol.

Mae'r dyddiadau cau yn y ddogfen hon yn rhai generig. Rydym wedi cyhoeddi [amserlen etholiad generig ar ein gwefan](#). Ar gyfer unrhyw isetholiad, byddwch yn gallu cael copi o'r amserlen benodol ar gyfer yr etholiad hwnnw gan y Swyddog Canlyniadau.

Datganiad derbyn swydd

1.1 Os gewch chi eich ethol, ni allwch fod yn gynghorydd (mae hyn yn cynnwys mynychu a phleidleisio mewn cyfarfodydd) hyd nes eich bod wedi llofnodi'r datganiad o dderbyn swydd.¹

1.2 Mae'n rhaid gwneud y datganiad hwn o fewn deufis i ddyddiad yr etholiad. Os methwch chi wneud eich datganiad erbyn y terfyn amser hwn, cyhoeddir bod y sedd yn wag a chynhelir isetholiad.

Yng Nghymru, trwy lofnodi'r datganiad, rydych yn cytuno i ddilyn Cod ymddygiad yr awdurdod lleol.

Dyrannu seddi os yw'r etholiadau a amserlennwyd wedi'u cyfuno ag isetholiad lleol

1.3 Pan fo isetholiad lleol wedi ei gyfuno ag etholiad lleol wedi'i amserlennu yn yr un ward, dyrennir seddi yn unol â'r nifer pleidleisiau a dderbyniwyd gan yr ymgeiswyr buddugol.

1.4 Er enghraifft, yn achos etholiad a amserlennwyd i ward gydag un lle gwag sydd wedi ei gyfuno ag isetholiad i'r un ward, yr ymgeisydd gyda'r mwyaf o bleidleisiau sy'n cael y sedd a adawyd yn wag oherwydd yr etholiad a amserlennwyd. Mae hyn oherwydd mai'r sedd hon sydd â'r tymor hiraf mewn swydd. Yna mae'r unigolyn gyda'r ail nifer uchaf o bleidleisiau yn cael y sedd isetholiad.

¹ Gweler adran 83 Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'l diwygiwyd

4

Deisebau etholiadol

1.5 Gall canlyniad etholiad llywodraeth leol gael ei herio drwy ddeiseb etholiadol. Am ragor o fanylion ynghylch herio etholiad, gweler paragraff **1.10**.

Beth sy'n digwydd i waith papur etholiad ar ôl cyhoeddi'r canlyniad?

1.6 Cedwir yr holl ddogfennau etholiad gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol ac mae'r mwyafrif ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus.

1.7 Os gwelwch yn dda, nodwch nad yw papurau pleidleisio yn agored i archwiliad cyhoeddus. Os ydych yn dymuno archwilio dogfennau etholiad, gweler paragraff **1.16** am ragor o wybodaeth.

Cyflwyno eich ffurflenni gwariant etholiad

1.8 O fewn 35 diwrnod calendr o gyhoeddi canlyniad yr etholiad, bydd angen i'ch asiant etholiad baratoi a chyflwyno ffurflen gwariant etholiad i'r Swyddog Canlyniadau. Yn ychwanegol, rhaid i chi a'ch asiant etholiad lofnodi datganiad yn nodi fod y ffurflen yn gyflawn a chywir hyd eithaf eich gwybodaeth a'ch cred. Ceir canllawiau manwl ynghylch cwblhau a chyflwyno eich ffurflen dychweliad gwariant yn [Rhan 3: Gwariant a rhoddion](#).

1.9 Mae goblygiadau am fetu â chyflwyno cofnodion gwariant ac mae'r rhain ym mharagraffau **1.30** i **1.32**.

Gwybodaeth ategol

Cyflwyno deiseb etholiadol

1.10 Dim ond pobl benodol a gaiff gyflwyno deiseb etholiadol, a dim ond mewn amgylchiadau neilltuol.

1.11 Caiff y canlynol gyflwyno deiseb etholiadol:

- rhywun sy'n honni ei fod yn ymgeisydd yn yr etholiad, neu
- o leiaf pedwar o etholwyr (heb eu cofrestru'n ddiennw) oedd â hawl pleidleisio yn yr etholiad (er does dim rhaid eu bod wedi pleidleisio)

1.12 Y seiliau a ganiateir dros ddeiseb yw:

- bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn anghymwys ar adeg yr etholiad
- nad oedd yr ymgeisydd llwyddiannus wedi'i ethol yn briodol
- bod yr etholiad yn annilys oherwydd arferion llygredig neu anghyfreithlon
- bod yr etholiad yn annilys oherwydd llygredd cyffredinol neu benodiad canfasiwr/ asiant llygredig

1.13 Fel arfer mae'n rhaid cyflwyno'r ddeiseb o fewn 21 diwrnod calendr o ddyddiad yr etholiad. Fodd bynnag, os bydd y ddeiseb yn cwyno ynglŷn ag arferion llygredig neu anghyfreithlon sy'n ymwneud â thalu arian neu roi math arall o wobwr, neu arfer anghyfreithlon sy'n ymwneud â threuliau etholiad, gellir caniatáu mwy o amser.

6

1.14 Cysylltwch â'r Swyddfa Deisebau Etholiadol ynghylch unrhyw gwestiynau yn ymwneud â deisebau etholiadol, gan gynnwys cadarnhau'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno deiseb etholiadol:

The Election Petitions Office
Room E113
Royal Courts of Justice
Strand
London
WC2A 2LL

E-bost: Election_Petitions@hmcts.gsi.gov.uk
Ffôn: 0207 974 6877
Ffacs: 0870 324 0024

1.15 Mae costau'n gysylltiedig â chyflwyno deiseb etholiadol. Os ydych yn ystyried cyflwyno deiseb etholiadol, rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn cymryd cyngor cyfreithiol annibynnol.

Archwilio a chyflenwi dogfennau cysylltiedig ag etholiad

1.16 Caiff dogfennau sydd ar gael i'w chyflenwi a'u harchwilio eu cadw gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol. Mae manylion cyswllt ar gael yn www.dybleidlaisdi.co.uk.

Archwilio a chyflenwi cofrestri wedi'u marcio a rhestrau pleidleiswyr absennol

1.17 Mae'r cofrestri etholiadol wedi'u marcio a rhestrau pleidleiswyr absennol yn dangos pwy sydd wedi cael papur pleidleisio, pwy sydd wedi dychwelyd eu papur pleidleisio post, ac ar ran pwy y bwriwyd pleidlais ddirprwy ar eu rhan.

1.18 Gellwch archwilio neu gael copïau o'r gofrestr etholwyr wedi'i marcio a rhestrau pleidleiswyr absennol ar ôl yr etholiad os y gwnewch gais ysgrifenedig i'r Swyddog Cofrestru

Etholiadol. Mae manylion cyswllt ar gael ar www.dybleidlaisdi.co.uk.

1.19 Nodwch mai dim ond i bwrpasau ymchwil neu etholiadol y cewch wneud defnydd o'r wybodaeth o'r dogfennau hyn.

1.20 Rhaid i'r cais archwilio fanylu ar y canlynol:

- am ba ddogfennau y gofynnir
- i ba bwrpasau y defnyddir y wybodaeth mewn unrhyw ddogfen
- pan fo'r cais i weld cofrestr wedi'i marcio neu restrau, unrhyw reswm pam na fyddai archwilio'r gofrestr lawn neu restrau heb eu marcio'n ddigon i gyflawni'r diben
- pwy fydd yn archwilio'r dogfennau
- y dyddiad yr hoffech archwilio'r dogfennau, a
- p'un a fyddai well gennych archwilio'r dogfennau ar ffurf argraffedig ynteu ar ffurf data

1.21 Bydd yr archwilio'n digwydd dan oruchwyliaeth, ac mae am ddim. Ni ellwch wneud copïau ond cewch wneud nodiadau mewn llawysgrifen.

1.22 Rhaid i'r cais am gyflenwad fanylu ar:

- pa gofrestr wedi'i marcio neu restrau (neu'r rhan berthnasol o'r gofrestr neu restrau) y gofynnir amdanynt
- p'un a ofynnir am gopi argraffedig o'r cofnodion neu restrau, ynteu gopi ar ffurf data
- i ba bwrpasau y defnyddir y gofrestr wedi'i marcio neu restrau a pham na fyddai cyflenwad neu brynu copi o'r gofrestr neu restrau heb eu marcio llawn yn ddigonol i gyflawni'r pwrpas hwnnw

1.23 Cyflenwir y ddogfen y gofynnir amdani am ffi o £10 + £2 am fersiwn argraffedig a £1 am fersiwn data fesul 1,000 o gofnodion.

1.24 Noder y bydd y dogfennau hyn, sy'n cael dal gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol, yn cael eu dinistrio ar ôl 12 mis, oni bai bod gorchymyn llys yn rhoi cyfarwyddyd fel arall.

1.25 Yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) ni fydd data personol a brosesir at unrhyw ddiben yn cael ei

Ni ellir archwilio papurau enwebu ar ôl yr etholiad. Dim ond hyd at y diwrnod cyn yr etholiad y gellir eu harchwilio.

gadw'n hirach nag sy'n hanfodol ar gyfer y diben hwnnw. Os gofynnwch am, a'ch bod yn cael y wybodaeth a restrir uchod, unwaith bod y pwrpas ar gyfer casglu'n data wedi mynd heibio, mae angen i chi ystyried os oes rheswm i chi gadw'r data yna. Os nad oes rheswm, dylech sicrhau eich bod yn dinistrio unrhyw ddata sydd gyda chi.

Archwilio dogfennau etholiad eraill

1.26 Cewch archwilio dogfennau etholiad eraill, ond ni chewch wneud nodiadau na chymryd copïau o unrhyw rai o'r dogfennau hyn. Yr unig ddogfennau na ellir eu harchwilio yw:

- y papurau pleidleisio
- y rhestrau rhifau cyfatebol
- y tystysgrifau sy'n caniatáu i staff gorsafoedd pleidleisio bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio ble maent yn gweithio

1.27 Bydd yr holl ddogfennau etholiad, sy'n cael eu dan gan ySwyddog Cofrestru Etholiadol yn cael eu dinistrio ar ôl 12 mis, oni bai bod gorchymyn llys yn rhoi cyfarwyddyd fel arall.

Archwilio cofnodion gwariant etholiad

1.28 Caiff y cofnodion gwariant a'r datganiadau eu cadw gan y Swyddog Canlyniadau, Gellir archwilio cofnodion gwariant a dtaganiadau gan unrhyw unigolyn ar ôl iddynt gael eu cyflwyno. Hefyd gellir gwneud copïau am ffi o 20c fesul ochr.

1.29 Cedwir cofnodion gwariant a datganiadau am ddwy flynedd. Gellwch ofyn am iddynt gael eu dychwelyd i chi neu eich asiant ar ddiwedd y cyfnod hwn. Os nad ydych chi neu eich asiant eisïau nhw'n ôl, byddant yn cael eu dinistrio.

Beth sy'n digwydd os na chaiff cofnod gwariant ei gyflwyno?

1.30 Mae methu â darparu cofnod gwariant neu ddatganiad erbyn y dyddiad cau heb reswm awdurdodedig yn drosedd.

1.31 Mae gan y Comisiwn Etholiadol hawl cyfreithiol i sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r rheolau ar wariant a rhoddion ymgeiswyr, ond dim pwerau cosbi mewn achos o dorri'r rheolau. Dylid cyfeirio unrhyw achosion a dybir o dorri'r rheolau i'r heddlu.

1.32 Os yw ymgeisydd wedi ei ethol ond nad yw wedi cyflwyno cofnod gwariant a/neu ddatganiad erbyn y dyddiad cau, yna byddant yn cael eu rhwystro rhag eistedd neu bleidleisio a gallant fod yn destun fforffedu neu ddirwy o £50 os ydynt yn gwneud.